**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/RE/4676/14

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

cc: Y Llywydd

25 Tachwedd 2014

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

**Iawndal TB buchol**

Mewn datganiad i'r Cynulliad ar 21 Hydref, dywedais wrth yr Aelodau am fy mhenderfyniad i barhau â'r system bresennol o brisio ar y fferm ar gyfer iawndal TB, ynghyd â nifer o welliannau. Rwy'n ysgrifennu atoch i egluro rhai o'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod llawn.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar system tabl prisio ar gyfer iawndal TB, awgrymodd NFU Cymru sefydlu panel o arbenigwyr cydnabyddedig ym maes prisio da byw i gynghori ar iawndal TB a sicrhau cysondeb a thegwch. Er fy mod yn gwerthfawrogi'r holl awgrymiadau yn ymateb NFU Cymru, rwy'n credu bod hyn yn bod eisoes ar ffurf ein Priswyr Monitro, sef grŵp o dri prisiwr da byw arbenigol. Eu gwaith yw sicrhau cysondeb a gwneud yn siŵr bod y prisiadau yn deg i'r ffermwyr a'r trethdalwyr. Maent yn gwneud hyn drwy archwilio prisiadau'n rheolaidd a chwilio am gyfiawnhad fel y bo angen. Yn ogystal â hyn, mae hawl gan Briswyr Monitro i atal priswyr rhag gweithredu dros dro os nad ydynt yn cyfiawnhau'r prisiad yn foddhaol. Gallant hefyd fonitro priswyr gwarantedig drwy gadw cwmni iddynt ar ymweliadau prisio, a monitro prisiadau drwy fynd i'r lladd-dai i asesu anifeiliaid cyn eu lladd. Rwy'n credu y bydd y newidiadau a gyhoeddais hefyd yn eu galluogi i archwilio prisiadau yn fwy trylwyr nag sy'n bosibl dan y trefniadau presennol.

Rydw i am sicrhau'r Aelodau y bydd y contract fframwaith yn cael ei roi i dendr mewn cystadleuaeth agored dan y broses gaffael, ac felly bydd yn agored i bob arwerthwr da byw. Nid ydym wedi cytuno eto ar union ofynion y tendr, ond byddant yn cael eu cadarnhau mewn ymgynghoriad â'r cymdeithasau prisio, i sicrhau bod gennym briswyr cymwys, priodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk

Yn ystod y cyfarfod llawn, gofynnwyd i mi a fyddwn yn fodlon ystyried cyflwyno system i apelio dan amodau eithriadol lle mae anifeiliaid yn cael eu prisio dros £15,000. Nid wyf yn bwriadu cyflwyno system apelio oherwydd byddai unrhyw oedi, tra bod y ffermwr yn apelio yn erbyn prisiad yr anifail, yn golygu bod anifail wedi'i heintio yn aros ar y fferm am gyfnod hwy. Mae hyn yn groes i egwyddorion rheoli clefydau heintus, sef dod o hyd i haint yn gyflym, ei rwystro rhag lledaenu ac yna'i ddileu. Gallai hyn hefyd arwain at weld mwy o anifeiliaid yn cael eu heintio, gan greu mwy o broblem.

O ran yswiriant, mae fy swyddogion wedi gweld bod cynlluniau yswiriant ar gael rhag colledion pan fo anifeiliaid yn cael eu lladd yn sgil TB buchol. Rydw i wedi cael gwybod y bydd cost yr yswiriant yn amrywio yn unol â'r perygl tebygol, fel sy'n digwydd gydag yswiriant o fath arall, felly bydd ymarferoldeb a chost yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob ffermwr. Yn y pen draw, bydd yswirio anifail yn benderfyniad masnachol i bob ffermwr.

Cafwyd awgrym yn ystod yr ymgynghoriad y gallai milfeddygon preifat brisio ar unwaith wrth ddod o hyd i wartheg adweithiol. Ar adegau, gall swyddogion yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) gytuno ar brisiad gyda'r ffermwr. Mae hyn er mwyn helpu i symud un neu ddau o anifeiliaid yn gyflym. Fodd bynnag, ar ôl ystyried sut byddai hyn yn ein helpu i gyflawni'n nodau o roi iawndal teg i ffermwyr sy'n colli eu gwartheg ac osgoi talu iawndal TB ar gyfraddau uwch na 100% o werth yr anifail, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod milfeddygon preifat yn ddigon cymwys i brisio gwartheg o ddydd i ddydd. Yn hytrach, rwy'n credu bod milfeddygon preifat yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn sicrhau iechyd a lles yr anifeiliaid. Drwy'r cynllun peilot *Cymorth TB*, a fu'n rhedeg rhwng mis Hydref 2013 a mis Mai 2014, gwerthuswyd swyddogaethau posibl ar gyfer milfeddygon wrth reoli achosion o TB ac ystyriwyd ffyrdd y gallai'r milfeddygon hyn roi gwell cymorth i geidwaid buchesi. Ar ôl cwblhau'r cynllun peilot, cafwyd adroddiad gwerthuso gan Brifysgol Caerdydd. Mae'n asesiad cadarnhaol iawn o'r cynllun peilot, ac yn datgan bod *Cymorth TB* yn dangos gwerth cyfraniad milfeddygon preifat wrth reoli TB buchol, o safbwynt ffermwyr, APHA a'r milfeddygon eu hunain. Cyn hir byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad am yr adroddiad ac am gynlluniau i ehangu cynllun *Cymorth TB*.

Gofynnwyd i mi yn y cyfarfod llawn pa gamau rwy'n eu cymryd i sicrhau prydlondeb anfon priswyr i gynnal prisiad ar y fferm. Er mwyn symud anifail sydd wedi'i heintio cyn gynted ag sy'n bosibl, mae APHA yn ceisio trefnu prisiad ar y fferm a symud gwartheg adweithiol o fewn 10 diwrnod ar ôl dod o hyd i'r achos. Cyfartaledd y cyfnod cyn symud gwartheg adweithiol eleni yw 8.4 diwrnod gwaith, gyda 94.9% o'r gwartheg adweithiol yn cael eu symud o fewn 10 diwrnod gwaith. Felly nid yw hyn yn broblem ar hyn o bryd, yn fy marn i, ond rwyf wedi gofyn i'm swyddogion barhau i fonitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y cyfnod mor fyr ag sy'n bosibl.

Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i ffermydd cyfagos pan fo achosion o TB ar fferm, er mwyn i'r cymdogion fedru dilyn mesurau bioddiogelwch priodol i leihau'r perygl. Rwy'n falch iawn o roi gwybod i'r Aelodau ein bod yn gweithio gyda Defra ac APHA ar ddatblygu system ar y we a fydd yn dangos lleoliadau achosion presennol o TB mewn buchesi yng Nghymru a Lloegr. Bydd lleoliad y buchesi dan gyfyngiadau TB yn cael eu harddangos ar fap. Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar hyn yn fuan, ac fe fyddaf yn gwneud cyhoeddiad pellach cyn hir.

Yn olaf, hoffwn sicrhau'r Aelodau y byddwn yn parhau i fonitro effaith y mesurau a gyflwynwyd o fewn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Gobeithio, drwy'r amrywiol fesurau a

gyflwynwyd i leihau lefel yr heintio o fewn pob rhywogaeth yn yr ardal, y byddwn yn y pen draw yn gweld gostyngiad yn nifer y buchesi sydd wedi'u heintio. Fodd bynnag, bydd angen sawl blwyddyn cyn cadarnhau unrhyw wahaniaethau ystyrlon rhwng buchesi yn yr Ardal Triniaeth Ddwys a'r ardal gymharol. Hefyd, ni fydd modd i ni briodoli unrhyw wahaniaethau a welir yn lefelau'r achosion o TB yn yr Ardal Triniaeth Ddwys i unrhyw un o'r mesurau yn unigol. Mae adroddiadau ynghylch asesiadau blynyddol o achosion o TB mewn buchesi yn yr Ardal Triniaeth Ddwys ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/?skip=1&lang=cy

Yn gywir,
Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food